Cychwyn Gweithdrefn Gallu Cynlluniau'r BBC	33
Proses Gallu Cynlluniau Anffurfiol	34
Proses Gallu Cynlluniau Ffurfiol	34
Terfynu'r Cynllun	38
5. Cyfleoedd Di-dâl	38
5a. Cysgodi	38
6. Rhaglenni Gweithredu Cadarnhaol	39
7. Strwythur Cyflog	40

1. Diffiniadau

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer unrhyw un o gynlluniau'r BBC, mae'n rhaid i ymgeiswyr fod â hawl gyfreithiol i fyw a gweithio yn y DU drwy gydol y cynllun. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd ffi'r drwydded yn cael ei defnyddio i gefnogi preswylwyr o'r tu allan i'r DU.

Cynlluniau'r BBC yw'r term sy'n cwmpasu holl Raglenni Gyrfaedd Cynnar, Cyn-cyflogi neu Brentisiaethau Staff y BBC sy'n cael eu cydnabod yn ffurfiol. Mae pawb sy'n ymgymryd â Chynlluniau sy'n cael eu cydnabod yn ffurfiol yn cael eu hystyried yn weithwyr y BBC. Oni nodir yn glir yn y polisi hwn, mae polisiau cyflogaeth cyfredol y BBC yn berthnasol i'r rheini sy'n ymgymryd â Chynlluniau'r BBC.

Mae proses gymeradwyo ar waith ar gyfer dechrau cynlluniau newydd i sicrhau bod yr holl raglenni ar draws y BBC yn cyd-fynd â'r darpariaethau a nodir yn y ddogfen hon. Mae'n bwysig bod unrhyw gynig i ddechrau cynllun yn cael ei drafod gyda Rheolwyr Portffolio Cynllun Gyrfaedd Cynnar a Phrentisiaethau Staff y BBC yn gynnar a bod cymeradwyaeth yn cael ei sicrhau cyn i unrhyw ymrwymadau gael eu gwneud.

Rheolir Cynlluniau'r BBC gan y polisi hwn ac, at ddibenion y polisi hwn, fe'u diffinnir ymhellach fel a ganlyn:

- **Prentisiaeth**: Rhaglen hyfforddiant galwedigaethol sy'n arwain at gymhwyster ffurfiol wedi'i achredu gan Gorff Dyfarnu
- **Cynllun Hyfforddeion**: Cynllun hyfforddi wedi'i gynllunio gan y BBC nad oes ganddo gymhwyster cydnabyddedig ffurfiol
- **Cynllun Cyn-cyflogi**: Cynllun sy'n cael ei gydnabod yn ffurfiol (naill ai Hyfforddiaeth, Interniaeth neu leoliadau gwaith Lefel T) sy'n cael ei redeg mewn partneriaeth â darparwyr addysg ac sy'n denu cyllid gan y Llywodraeth
- **Hyfforddiant Gorfodol Craidd y BBC**: Mae'r BBC yn ystyried bod hyfforddiant mewn rhai pynciau mor bwysig fel ei fod yn orfodol. Gelwir hyn yn "Hyfforddiant Gorfodol Craidd y BBC" ac mae'n orfodol i holl weithwyr y BBC, beth bynnag fo'u rôl neu Gynllun.

Gall rhaglenni fod yn agored i bawb neu gael eu targedu at grwpiau penodol. Gellir eu hariannu'n ganolog neu gan Is-adrannau. Gallent gael eu hariannu'n llawn gan y BBC, neu eu hariannu'n rhannol gan sefydliad allanol fel corff diwydiannol. Tra ar Gynllun o fewn y diffiniadau uchod, mae'r BBC wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus. Bydd y BBC yn ystyried bod cwblhau Cynllun yr un mor bwysig â chydbwysio anghenion busnes. Dyna pam nad yw polisi Dysgu a Datblygu'r BBC yn berthnasol i'r rheini sy'n ymgymryd â Chynlluniau sy'n cael eu cydnabod yn ffurfiol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

- Sarah Moors, Pennaeth Gyrfaoedd Cynnar a Phrentisiaethau Staff
- Ellena Stojanovic, Rheolwr Portffolio Cynlluniau, Cynlluniau Cyn-cyflogi ac Arweinyddiaeth
- Huw Davies, Rheolwr Portffolio Cynlluniau, Cynlluniau Corfforaethol a Thechnoleg
- Daniell Morrissey, Rheolwr Portffolio Cynlluniau, Cynlluniau Golygyddol
- Sinead Mullarky, Rheolwr Portffolio Cynlluniau, Hwb Prentisiaid y BBC

2. Prentisiaethau

Mae prentisiaethau yn y Deyrnas Unedig yn gymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn ffurfiol gan gyflogwyr ac sy'n cael eu llywodraethu a'u hariannu gan Lywodraeth y DU (neu un o'r gwledydd datganoledig), ac yn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Weinidogion. Mae rhai gofynion cyfreithiol sylfaenol yng ngwledydd datganoledig y DU y mae ein rhaglenni prentisiaeth yn eu bodloni, yn dibynnu ar y safon prentisiaeth a gynigir.

Gall prentis fod yn 16 oed neu'n hŷn ac mae'n cael ei gyflogi, gan weithio ochr yn ochr â gweithwyr profiadol ac ennill sgiliau sy'n benodol i'r swydd a chael amser ar gyfer hyfforddiant ac astudio sy'n gysylltiedig â'r proffesiwn (o leiaf 20% o'u horiau gwaith). Darperir yr hyfforddiant naill ai gan goleg, prifysgol, y BBC neu ddarparwr hyfforddiant prentisiaeth a gymeradwywyd yn fasnachol. Gall prentisiaethau gymryd rhwng 1 a 5 mlynedd i'w cwblhau, yn dibynnu ar lefel yr astudio, gan amrywio o Lefel 2 (TG/Safonau) i Lefel 7 (Gradd Meistr).

Cynlluniau Prentisiaeth yn y BBC

Mae dau fath o drefniant prentisiaeth ac mae'r adrannau canlynol yn rhoi rhagor o fanylion. Mae'n ofynnol i bob math o brentisiaid gael eu rhyddhau am 20% o'u hamser i gwblhau hyfforddiant ac astudio y tu allan i'r gwaith.

Am resymau lechyd a Diogelwch ac Amddiffyn Plant, yn ôl y polisi a weithredir gan y BBC mae'n rhaid i unrhyw un ar raglen Brentisiaeth fod dros 18 mlwydd oed, ar wahân i'r cynlluniau lefel T Cyn-cyflogi sydd ar gyfer y blynyddoedd ôl-16.

2a. Prentisiaethau Lefel Mynediad

Mae'r holl brentisiaid lefel mynediad yn cael eu contractio ar gontract parhaus safonol y BBC ac eithrio prentisiaid cynhyrchu sydd ar gontractau cyfnod penodol. Os oedd prentis wedi ymgysylltu cyn mis Medi 2021, darparwyd Adendwm ychwanegol yn ymwneud â darpariaethau sy'n benodol i'r brentisiaeth. Os cafodd prentis ei gyflogi ar 1

Medi 2021 neu ar ôl hynny, mae gwybodaeth benodol wedi'i chynnwys yn nogfennau contract pob unigolyn ac mae'r polisi hwn yn cynnwys manylion y darpariaethau sy'n berthnasol.

Mae prentisiaid yn cael eu contractio ar fand hyfforddi (TRN), y tu allan i strwythur tâl a bandio ffurfiol y BBC, i adlewyrchu natur eu rôl.

Mae Prentisiaid Lefel Mynediad yn y gweithle i ddysgu ac mae'r dysgu hwn yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ofynion gweithredol o ddydd i ddydd. Maent yn ychwanegol at y nifer ac ni ddylent fod yn cyflawni dyletswyddau y mae'r BBC yn dibynnu arnynt.

Mae Prentisiaid Lefel Mynediad yn cael y canlynol, ni waeth beth yw'r cymhwyster prentisiaeth y mae'n nhw'n ei ddilyn:

- Cyflog Prentis y BBC o £15,074 yn y flwyddyn gyntaf, gan godi i Gyflog Byw Cenedlaethol ym mlwyddyn 2 a'i adolygu yn y blynyddoedd dilynol
- Bydd pob Prentis sydd wedi'i leoli yn Llundain yn cael codiad cyflog sylfaenol sy'n cyfateb i Bwysoliad Llundain y BBC
- Hyfforddiant ymaith o'r gwaith – am o leiaf 20% o'u hamser yn unol â gofynion y llywodraeth ar gyfer Prentisiaeth
- Arweinydd Tîm yn y gweithle sy'n gyfrifol am eu gweithgaredd gwaith o ddydd i ddydd, perfformiad yn y gweithle a gofal bugeiliol
- Arbenigwr ar y cynllun, sy'n gyfrifol am ddarparu'r rhaglen brentisiaeth yn ddiraffferth yn gyffredinol ac sy'n gweithio gyda'r Darparwr Hyfforddiant allanol i sicrhau bod holl elfennau'r cymhwyster prentisiaeth yn cael eu cyflawni a hefyd yn darparu cymorth ychwanegol i'r rheolwr lleoliad a phrentisiaid unigol yn ôl yr angen.

2c. Prentisiaethau Staff

Lansiwyd y rhain yn 2018, i'r BBC gynnig prentisiaethau i aelodau cymwys o staff presennol y BBC. Mae rheolau cyllido'r Llywodraeth yn golygu y gallwn ddefnyddio prentisiaethau i ddatblygu ac uwchsgilio staff presennol (ar yr amod bod meini prawf cymhwysedd penodol yn cael eu bodloni). Mae'n ofynnol i bob prentis staff y BBC gael eu rhyddhau am 20% o'u hamser i gwblhau hyfforddiant ac astudio y tu allan i'r gwaith.

Mae holl Brentisiaid Staff y BBC yn aros yn eu swydd bresennol ac yn cadw eu telerau ac amodau presennol ac yn cwblhau'r cymhwyster prentisiaeth ochr yn ochr â'u rôl bresennol.

Oherwydd gofynion trwm y rhaglenni hyn, bydd angen cefnogaeth lawn eu Harweinydd Tîm a'u Partner Busnes Adnoddau Dynol ar unigolion.

3. Hyfforddeion

Caiff Cynlluniau Hyfforddeion eu datblygu gan y BBC a'u cefnogi gan y Tîm Gyrfaoedd Cynnar neu dimau Is-adrannol. Mae Cynlluniau Hyfforddeion y BBC yn cyfuno profiad uniongyrchol yn y gwaith â hyfforddiant pwrpasol Academi'r BBC. Mae hyfforddeion wedi'u gwreiddio mewn timau Is-adrannol sy'n gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant.

Mae cyfraith gwahaniaethu ar sail oed yn ein hatal rhag gosod terfyn oedran uchaf ar Gynlluniau Hyfforddeion.

Am resymau lechyd a Diogelwch ac Amddiffyn Plant, yn ôl y polisi a weithredir gan y BBC mae'n rhaid i unrhyw un ar raglen hyfforddi fod dros 18 mlwydd oed.

3a. Cynlluniau Hyfforddeion Graddedig Lefel Mynediad

Mae'r holl hyfforddeion lefel mynediad yn cael eu contractio ar gontract parhaus safonol y BBC neu Gontract Cyfnod Penodol. Os oedd hyfforddai wedi ymgysylltu cyn mis Medi 2021, darparwyd Adendwm ychwanegol yn ymwneud â darpariaethau sy'n benodol i'r Cynllun hyfforddi. Os cafodd hyfforddai ei gyflogi ar 1 Medi 2021 neu ar ôl hynny, mae gwybodaeth benodol wedi'i chynnwys yn nogfennau contract pob unigolyn ac mae'r polisi hwn yn cynnwys manylion y darpariaethau sy'n berthnasol.

Mae angen i statws contract hyfforddeion gael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Is-adrannol perthnasol a Phennaeth Gyrfaoedd Cynnar a Phrentisiaethau Staff y BBC.

Mae hyfforddeion yn cael eu contractio ar fand swydd 'hyfforddai' (TRN) i adlewyrchu natur eu rôl ac maent y tu allan i strwythur cyflogau a graddio ffurfiol y BBC.

Mae Hyfforddeion ar lefel Mynediad yn y gweithle i ddysgu ac mae'r dysgu hwn yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ofynion gweithredol o ddydd i ddydd. Maent yn ychwanegol at y nifer ac ni ddylent fod yn cyflawni dyletswyddau y mae'r BBC yn dibynnu arnynt.

Mae hyfforddeion lefel mynediad yn cael y canlynol, ni waeth beth yw math y cynllun:

- Cyflog Hyfforddai'r BBC o £22,442 yn y flwyddyn gyntaf, a bydd eu cyflog yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd bob blwyddyn.
- Bydd pob Hyfforddai a leolir yn Llundain yn derbyn codiad cyflog sylfaenol sy'n cyfateb i Bwysoliad Llundain y BBC
- Rhaglen ddysgu a datblygu a all amrywio o ran hyd. Telir pob cyflog pro rata
- Rhaglen ddysgu strwythuredig wedi'i dylunio gan y BBC gydag adolygiadau rheolaidd.

- Swydd wedi'i neilltuo a'i goruchwyllo yn y BBC er mwyn cael profiad ymarferol yn y swydd.
- Cyfleoedd hyfforddi strwythuredig y tu allan i'r swydd (drwy Academi'r BBC fel arfer) yn ogystal â dysgu yn y gwaith
- Arweinydd Tîm yn y busnes, ac Arbenigwr Cynllun sy'n gyfrifol am gyflwyno'r rhaglennau hyfforddeion yn ddidrafferth.

3b. Rhaglenni Hyfforddi wedi'u hariannu'n allanol neu eu hariannu rhannol

Ar adegau, efallai y byddwn yn dewis ymgysylltu â chynlluniau hyfforddi ehangach y diwydiant sy'n derbyn arian cyhoeddus neu gyllid gan drydydd parti arall sydd ag enw da.

Mae hwn yn faes cytundebol cymhleth ac mae'n hanfodol cael hyn yn iawn fel rhan o'r broses gymeradwyo. Rhaid i staff Treth y BBC, Gwasanaeth Cyfreithiol y BBC a'r Pennaeth Gyrfaoedd Cynnar a Phrentisiaethau Staff gymeradwyo unrhyw ddefnydd o gyllid allanol a threfniadau cytundebol ar y cam cynharaf.

Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod yr Hyfforddeion hyn ar raglenni hyfforddi *bona fide* ac nad ydynt byth yn cael eu defnyddio yn lle llafur y byddai'n rhaid i ni eu cyflogi fel arall er mwyn rhedeg ein busnes.

Mae'n gyffredin i gynlluniau o'r fath gael eu harchwilio'n allanol i weld a ydynt yn cydymffurfio â'u rheolau cyllido. Mae'n hanfodol felly ein bod yn glynu wrth y canlynol ar bob achlysur:

- Bydd cynlluniau hyfforddeion sy'n cael eu hariannu'n rhannol yn rhai tymor penodol
- Gellir cyflogi unigolion ar Gytundeb Hyfforddi'r BBC a byddant yn derbyn Lwfans Hyfforddi a ddylai fod yr un cyflog net (h.y. ar ôl trethi a thâl Yswiriant Gwladol) â thâl safonol Hyfforddeion neu Brentisiaid y BBC (pa un bynnag sydd fwyaf priodol), gan ystyried a yw Pwysoliad Llundain yn berthnasol
- Er mwyn sicrhau bod modd cymharu â chynlluniau hyfforddeion y BBC ei hun, dylai rhaglenni sy'n cael eu hariannu'n allanol gynnig o leiaf lefel gyfatebol o hyfforddiant i raglenni eraill dan hyfforddiant sy'n cael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol gan y BBC. Mae angen cytuno ar nodau ac amcanion y cynllun hyfforddi fel rhan o'r broses Cymeradwyo Cynlluniau i sicrhau cysondeb gyda chynlluniau eraill y BBC
- Mae angen i hyfforddeion sy'n cael eu hariannu'n allanol neu eu hariannu'n rhannol gael eu cynllun dysgu unigol eu hunain sy'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad yn y gwaith yn ogystal â hyfforddiant yn y gwaith. Mae angen i Arweinwyr Tîm ac Arbenigwr Cynllun fonitro hyn yn ofalus er mwyn sicrhau bod

amcanion dysgu'n cael eu cyflawni. Mae angen cadw cofnodion amserol o gynnydd yn erbyn y cynllun dysgu.

Pan fydd unrhyw gynllun cyfnod penodol cymeradwy yn dod i ben, bydd alumni yn gymwys i wneud cais am swyddi gwag mewnol y BBC am hyd at flwyddyn o'r dyddiad cwblhau.

3c. Interniaethau Academaidd

Mae rheoli interniaid yn gyfrifoldeb llwyr i is-adran y BBC y maent yn gweithio ynddi. Nid yw'r BBC yn cefnogi'r arfer o gael interniaethau di-dâl hir, ac mae'n cynnig interniaethau yn yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- Dylai unrhyw interniaeth a gynigir gan y BBC fod yn rhan achrededig o gwrs astudio Academaidd cydnabyddedig mewn Sefydliad Addysg Uwch yn y DU
- Nid ydym yn derbyn pobl fel Interniaid Academaidd yn yr haf ar ôl iddynt orffen eu hastudiaethau
- Bydd interniaid yn cael eu contractio ar gontract cyfnod penodol ac yn cael y gyfradd Cyflog Byw Cenedlaethol ar y pryd
- Y cyfnod hiraf ar gyfer interniaeth yw 12 mis
- Mae angen cytundeb tair ffordd rhwng yr unigolyn, y BBC a'r Sefydliad Addysg Uwch ynghylch pwrpas a thelerau'r interniaeth

4. Perfformiad, Cefnogaeth, Prawf ac Ymddygiad

Mae'r adran hon yn berthnasol i bob hyfforddai a phrentis, beth bynnag fo natur eu cynllun. Fodd bynnag, mae diogelwch penodol yn bodoli ar gyfer prentisiaid ac fe dynnir sylw at hyn lle bo'n berthnasol, ac mae'n berthnasol i bob math o Gynlluniau Prentisiaeth y BBC.

Rheoli Perfformiad

Mae'r BBC yn cydnabod bod rôl prentis neu hyfforddai'n golygu bod y BBC yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol yn y gweithle. Deallwn hefyd y gall fod gwahaniaeth yn y lefelau profiad, sgiliau a gwybodaeth i ddechrau rhwng y rhai sy'n ymgymryd â Chynlluniau a gweithwyr eraill. Mae'r BBC wedi ymrwymo i gwblhau ei Gynlluniau'n llwyddiannus a bydd yn cefnogi unigolion mewn amgylchiadau heriol a lliniarol.

Cefnogaeth Sydd Ar Gael

Mae cefnogaeth ar gael i'r rhai sy'n ymgymryd â Chynlluniau i sicrhau eu bod yn eu cwblhau ac yn cael cymwysterau lle bo hynny'n berthnasol. Mae hyn yn cynnwys:

- Arweinydd tîm yn y gweithle sy'n gyfrifol am eu gweithgaredd gwaith o ddydd i ddydd, perfformiad yn y gweithle a gofal bugeiliol
- Arbenigwr ar y cynllun, sy'n gyfrifol am ddarparu'r rhaglen yn ddiraffferth yn gyffredinol ac sy'n gweithio gyda'r Darparwr Hyfforddiant allanol i sicrhau bod holl elfennau'r cymhwyster prentisiaeth yn cael eu cyflawni a hefyd yn darparu cymorth ychwanegol i'r rheolwr lleoliad a phrentisiaid unigol yn ôl yr angen.
- Mynediad at [wasanaethau cymorth Llesiant y BBC](#)
- Mae Darparwyr Dysgu yn fath ychwanegol o gymorth ar gyfer pob Cynllun Prentisiaeth.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

- Sarah Moors, Pennaeth Gyrfaoedd Cynnar a Phrentisiaethau Staff
- Ellena Stojanovic, Rheolwr Portffolio Cynlluniau, Cynlluniau Cyn-cyflogi ac Arweinyddiaeth
- Huw Davies, Rheolwr Portffolio Cynlluniau, Cynlluniau Corfforaethol a Technoleg
- Daniell Morrissey, Rheolwr Portffolio Cynlluniau, Cynlluniau Golygyddol
- Sinead Mullarky, Rheolwr Portffolio Cynlluniau, Hwb Prentisiaid y BBC

Datblygiad Personol

Mae Cynlluniau'r BBC yn cydnabod yn ffurfiol ymrwymiad y BBC i feithrin doniau newydd ar gyfer y diwydiant creadigol ac maent wedi'u strwythuro i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau a bod cymwysterau'n cael eu rhoi. Wrth ymgymryd â Chynllun y BBC, bydd unigolion yn cael y gefnogaeth a amlinellir uchod a byddant yn cael sgysiau datblygu parhaus am gynnydd yr unigolyn, ei amcanion dysgu a thrafodaeth i ddeall pa sgiliau y mae wedi'u dysgu.

Bydd Arweinwyr Tîm yn darparu cefnogaeth bugeiliol a datblygu gyrfa i brentisiaid a hyfforddeion. Nid oes yn rhaid i Arweinwyr Tîm gynnal sgwrs MyConversation ffurfiol ar gyfer prentisiaid a hyfforddeion.

Mae Adnoddau Cymorth ar gael i Arweinwyr Tîm sy'n rheolwyr llinell ar brentisiaid. Cefnogir rheolwyr timau gan Arbenigwyr Cynllun sy'n gweithredu fel pwynt uwchgyfeirio lle bo angen.

Mae prentisiaid hefyd yn cael adolygiadau teiran rheolaidd lle mae'r Arweinydd Tîm a'r Prentis yn cwrdd â'r darparwr dysgu ac weithiau ag arbenigwr y cynllun i drafod eu cynnydd dysgu.

Cyfnodau Prawf

Bydd gweithwyr sydd newydd gael eu penodi i'r BBC yn destun cyfnod prawf o chwe mis ar gyfer staff parhaus, ac ar gyfer contractau tymor penodol bydd y cyfnod prawf yn hanner hyd y contract hyd at uchafswm o chwe mis. Bydd cyfnodau prawf yn cael eu hasesu ochr yn ochr ag o leiaf un o'r canlynol: ymddygiad, presenoldeb a pherfformiad (yn y swydd ac ochr yn ochr â Gwerthoedd y BBC). Nid yw cyfnodau prawf ychwanegol yn berthnasol pan fydd prentis neu hyfforddai'n symud i'w rôl gymhwyso.

Mae manylion cyfnodau rhybudd unigol ar gael yn nogfennau contractau'r Cynlluniau.

Ymddygiad

Disgwylir y bydd pawb sy'n ymgymryd â Chynlluniau BBC sy'n cael eu cydnabod yn ffurfiol yn ymgwyfarwyddo â gwerthoedd, polisiâu a gweithdrefnau'r BBC. Mae gweithwyr y BBC yn llysgenhadon ar ran y BBC a disgwylir i weithwyr, boed y tu mewn neu'r tu allan i oriau gwaith, gydymffurfio â phob cyfarwyddyd rhesymol a chyfreithlon ac mae hyn yn cynnwys defnydd personol o gyfryngau cymdeithasol. Fel gweithiwr y BBC, rhaid i chi osgoi peryglu amhleidioldeb y BBC, neu ddwyn anfri ar y BBC, drwy unrhyw weithgareddau ar-lein neu ar gyfryngau cymdeithasol, er enghraifft, drwy fynegi eich barn eich hun (neu gymeradwyo barn pobl eraill) am faterion gwleidyddol, naill ai ar wefannau personol neu ar gyfryngau cymdeithasol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddarllen y [Canllawiau Didueddrwydd](#) neu'r [Polisi Defnydd Personol o Gyfryngau Cymdeithasol](#).

Gweithdrefn Gallu Cynlluniau'r BBC

Nid yw polisi a gweithdrefn Gallu'r BBC yn berthnasol i'r rheini sy'n ymgymryd â Chynlluniau. Mae'r adran hon yn rhoi manylion y weithdrefn Gallu Cynlluniau pwrpasol sydd i'w dilyn pan fydd prentis neu hyfforddai'n methu cyrraedd neu gynnal y safon perfformiad ofynnol drwy ddiffyg gwybodaeth, sgiliau neu allu.

Bydd [polisi Disgyblu'r BBC](#) yn cael ei ddefnyddio pan fydd y methiant i berfformio neu gyrraedd y safonau academaidd sy'n ofynnol yn fater o gamymddwyn.

Mae'r BBC yn cadw'r hawl i weithredu'r weithdrefn a nodir isod ar unrhyw adeg, gan ystyried yr amgylchiadau perthnasol gan gynnwys lefel y perfformiad gwael, natur y rôl a'r materion perfformiad. Yn benodol mewn achosion o esgeulustod difrifol neu mewn unrhyw achos lle nad yw cyfnod prawf wedi'i gwblhau eto, gallai diswyddo heb ddilyn y weithdrefn gallu Cynlluniau fod yn briodol.

Mae'r BBC yn disgwyl i bob unigolyn sy'n ymgymryd â Chynlluniau wneud y canlynol:

- gallu cyflawni'r gwaith y maent wedi ymrwymo i'w wneud ar y safon ofynnol

- parhau i lynu wrth y safonau ymddygiad arferol a ddisgwylir gan weithwyr y BBC lle bynnag y maent
- mynychu a chymryd rhan mewn hyfforddiant
- cwblhau gwaith cwrs ac asesiadau yn ôl yr angen
- cynnal eu perfformiad academaidd gan gyrraedd y marc pasio sy'n ofynnol

Prentisiaid a Chanlyniadau Academaidd

Bydd y gofynion academaidd ar gyfer cwblhau prentisiaeth yn cael eu pennu gan y darparwr dysgu mewn perthynas ag arholiadau, gwaith cwrs a safonau. Mewn achosion lle nad yw prentisiaid yn bodloni'r marc pasio, mae ailsefyll arholiadau a chyflwyniadau gwaith cwrs yn dal i fod yn ôl disgrisiwn y darparwr hyfforddiant. Mae gan y BBC ddisgrisiwn i gyfyngu ar nifer yr ymgeisiau i ailsefyll neu ailgyflwyno, a bydd ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i achosion unigol.

Os na chyflawnir y safonau academaidd gofynnol (gan gynnwys arholiadau a gwaith cwrs), bydd gan y BBC hawl i'ch diswyddo chi heb rybudd neu daliad yn lle rhybudd a heb gyfeirio at Weithdrefn Gallu Cynlluniau'r BBC. Bydd diswyddo yn yr achosion hyn yn dilyn gweithdrefn amlinellol i gydymffurfio â'r amddiffyniadau diswyddo cyfreithiol uwch ar gyfer prentisiaid.

Hyfforddeion a Chanlyniadau Academaidd

Mae Cynlluniau Hyfforddeion yn cael eu cynllunio'n benodol gan y BBC fel rhaglenni dysgu a datblygu ffurfiol. Academi'r BBC sy'n pennu'r safonau a'r gofynion academaidd ar gyfer cwblhau cynllun hyfforddeion. Mewn achosion lle nad yw hyfforddeion yn llwyddo i basio'r asesiadau gofynnol, mae'r BBC yn cadw'r hawl i gyfyngu ar nifer yr ymdrechion i gyflawni asesiadau.

Os na chyflawnir y safon ofynnol, bydd gan y BBC hawl i'ch diswyddo chi heb rybudd neu daliad yn lle rhybudd a heb gyfeirio at Weithdrefn Gallu Cynlluniau'r BBC.

Cychwyn Gweithdrefn Gallu Cynlluniau'r BBC

Mae Proses Gallu Cynlluniau'r BBC wedi'i rhannu'n broses anffurfiol ac yn broses ffurfiol.

Ar y dechrau, disgwylir y gwneir ymdrechion rhesymol i fynd i'r afael yn anffurfiol â materion perfformiad heb gychwyn y broses ffurfiol. Mae'n ofynnol i Arweinwyr Tîm roi cyfle rhesymol i'r unigolyn wella, a chefnogi'r unigolyn i gyrraedd y safon perfformiad ofynnol. Rhaid cydbwysu hyn â gofynion gweithredol ac anghenion y BBC.

Pan na fydd problemau'n cael eu datrys, rhaid dechrau'r broses ffurfiol a rhaid i'r Arweinydd Tîm ofyn am arweiniad gan Cyngor i Reolwyr a rhoi gwybod i'r unigolyn am ei hawl i gael cynrychiolydd undeb llafur achrededig neu gydweithiwr yn y BBC (nad yw'n gweithio fel cyfreithiwr) gydag ef, a bydd yr unigolyn yn cael gwybod am yr hawl honno cyn cyfarfod Polisi Gallu Cynlluniau'r BBC. Dylid caniatáu i'r cydymaith annerch y cyfarfod er mwyn cyflwyno achos y gweithiwr.

Proses Gallu Cynlluniau Anffurfiol

Cyn belled ag y bo modd, bydd y BBC yn ceisio mynd i'r afael yn anffurfiol â materion perfformiad ar gyfer unigolion sy'n ymgymryd â Chynlluniau. Gall hyn ddigwydd yn ystod trafodaethau sydd wedi'u trefnu pan fydd Arweinydd Tîm yn rhoi adborth rheolaidd a bod yr unigolyn yn cael cyfle i berfformio'n dda. Mae Arweinwyr Tîm yn gyfrifol am osod safonau perfformiad realistig a chyraeddadwy a chyfleu hyn i aelodau'r tîm. Cyfrifoldeb yr Arweinydd Tîm yw darparu cefnogaeth a chymorth i sicrhau bod yr unigolyn yn cael cyfle i gyrraedd y safon ofynnol. Gall cymorth fod yn hyfforddiant a datblygiad ychwanegol, yn arweiniad neu lle mae pryderon o ran diogelu neu les yn bodoli, mae atgyfeiriadau'n cael eu gwneud fel y bo'n briodol.

Lle bo'n briodol, dylai Arweinydd Tîm gyfeirio at y [Canllawiau ar Gefnogi, Cadw a Recriwtio Staff Anabl](#) a, lle bo angen, dylid gofyn am gyngor gan Cyngor i Reolwyr a Gwasanaethau Mynediad ac Anabled.

Yn ddelfrydol, dylid trafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â thanberfformiad ar yr adeg y maent yn codi neu o gwmpas yr adeg hynny. Rhaid iddi fod yn glir i'r unigolyn yn ysgrifenedig bod pryderon am ei berfformiad cyn dechrau ar Weithdrefn Gallu Cynlluniau ffurfiol y BBC.

Os nad yw'r Weithdrefn Gallu Cynlluniau Anffurfiol yn arwain at ganlyniadau boddhaol neu os nad yw'n briodol mewn perthynas â'r pryderon, gweithredir y Weithdrefn Gallu Cynlluniau ffurfiol.

Proses Gallu Cynlluniau Ffurfiol

Mae camau wedi'u diffinio yn y Weithdrefn Gallu Cynlluniau Ffurfiol a rhaid dilyn pob un ohonynt. Mae'n bwysig nodi, mewn unrhyw gyfarfodydd ffurfiol:

- mae gan weithwyr hawl i gael cynrychiolydd undeb llafur achrededig neu gydweithiwr yn y BBC (nad yw'n gweithio fel cyfreithiwr) gyda nhw, a bydd y gweithiwr yn cael gwybod am yr hawl honno cyn cyfarfod Gweithdrefn Gallu Cynlluniau'r BBC.

- gall rheolwr y gwrandawriad drefnu bod rhywun yn cymryd nodiadau cryno o'r cyfarfod.
Bydd copi o'r nodiadau cryno yn cael ei anfon at y gweithiwr a'i gynrychiolydd (os yw'n briodol) i gael sylwadau. Cyhyd ag y derbynnir sylwadau mewn amser rhesymol, fel y diffinnir gan reolwr y gwrandawriad, byddant yn cael eu cadw gyda nodiadau gwreiddiol y cyfarfod.
- nid oes cyfnod hysbysu byrraf ar gyfer cyfarfodydd Gallu Cynlluniau ffurfiol, ond caniateir digon o amser i'r unigolyn gysylltu â'i gynrychiolydd a'i friffio.
- rhaid i weithwyr gymryd pob cam rhesymol i fynyachu cyfarfodydd gallu ffurfiol. Gellir trin methiant i ddod i gyfarfod heb reswm da fel mater o gamymddwyn.
- mae gan weithwyr yr hawl i ddatgan eu hachosion mewn cyfarfodydd gallu ffurfiol cyn i benderfyniadau gael eu gwneud.

Cam 1: Cyfarfod Gallu Cynlluniau Cyntaf

Bydd Arweinwyr Tîm yn ysgrifennu at y gweithiwr yn rhoi gwybod iddo am y pryderon ynghylch ei berfformiad a sail y pryderon hynny, a byddant yn ei wahodd i gyfarfod i drafod y mater.

Yn y cyfarfod, bydd Arweinydd Tîm y gweithiwr yn egluro'r ffordd nad yw'r safon ofynnol wedi cael ei bodloni, gan ddefnyddio enghreifftiau i gefnogi'r pryderon. Drwy drafod gyda'r unigolyn, bydd yr Arweinydd Tîm yn ceisio canfod y rhesymau dros y perfformiad anfoddhaol.

Yn dilyn y cyfarfod, os bydd y rheolwr yn penderfynu ei bod yn briodol gwneud hynny, bydd y gweithiwr yn cael Nodyn Gwella ysgrifenedig yn nodi'r meysydd lle nad yw'r gweithiwr wedi bodloni'r safonau perfformiad gofynnol.

Bydd y Nodyn Gwella yn:

- nodi y gall methu â chyrraedd y safon perfformiad ofynnol arwain at gymryd camau ffurfiol pellach, a gallai arwain at ddiswyddo.
- cael ei ddiystyru at ddibenion Gallu ar ôl 12 mis neu unrhyw gyfnod arall a bennir ar yr adeg y caiff ei roi
- cynnwys Cynllun Gwella ffurfiol sy'n nodi'r gwelliant sy'n ofynnol, y safon sydd i'w chyrraedd a'r amserlen ar gyfer cyflawni hynny.

Wrth gyflwyno Cynllun Gwella, bydd y rheolwr yn sicrhau bod hyd y cynllun yn rhesymol drwy ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol gan gynnwys:

- lefel y perfformiad gwael;
- y materion perfformiad dan sylw a'r gwelliant sy'n ofynnol;
- natur y rôl.

Nod y Cynllun Gwella yw galluogi'r unigolyn i gyrraedd y safon perfformiad ofynnol a:

- bydd yn cynnwys amserlenni ac amcanion clir, mesuradwy a realistig.
- bydd yn rhoi manylion camau gweithredu penodol a allai gynnwys gweithgareddau hyfforddi a datblygu, cyngor, arweiniad neu weithgareddau cefnogi.
- ni fydd yn fwy na thri mis fel arfer.
- bydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd o ran cynnydd o ran gwella perfformiad. Mae'n debygol y cynhelir o leiaf un cyfarfod adolygu interim i asesu perfformiad yr unigolyn yn erbyn cyfnod y Cynllun Gwella hyd yma.
 - Lle bo cynnydd tuag at yr amcanion yn foddhaol, caiff ei gydnabod ac anogir gwelliant parhaus. Os nad yw'r unigolyn yn gwneud digon o gynnydd tuag at yr amcanion, bydd y rheolwr yn trafod gyda'r gweithiwr y gwelliant pellach sydd ei angen ac unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Gwella, ni fydd y gweithiwr yn gymwys i gael unrhyw gynnydd mewn cyflog sy'n ddyledus a chyfrifoldeb yr Arweinydd Tîm yw gweithredu ar hyn. Bydd hyn yn cael ei adolygu a bydd y codiad cyflog yn cael ei adfer pan fydd y gweithiwr wedi bodloni'r safon perfformiad ofynnol yn gyson.

Cam 2: Ail Gyfarfod Gallu Cynlluniau

Ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Gwella, cynhelir cyfarfod i adolygu perfformiad y gweithiwr. Bydd yr Arweinydd Tîm yn ysgrifennu at y gweithiwr ymlaen llaw yn egluro pwrpas y cyfarfod hwnnw.

Gall canlyniadau posibl y cyfarfod gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

Dim camau pellach: Os bydd yr Arweinydd Tîm yn penderfynu bod yr amcanion wedi'u cyflawni a bod yr unigolyn yn cyrraedd y safon ofynnol, ni chymerir unrhyw gamau pellach. Bydd y gweithiwr yn cael gwybod yn ysgrifenedig ei fod wedi cyrraedd y lefel ofynnol a bod disgwyl iddo gynnal y safon perfformiad honno.

Rhybudd ysgrifenedig terfynol: Os nad yw'r amcanion wedi'u cyflawni a bod yr Arweinydd Tîm yn dod i'r casgliad y gellir datrys y tanberfformiad o hyd drwy roi cefnogaeth bellach, bydd rhybudd ysgrifenedig terfynol a Chynllun Gwella yn cael ei roi i'r gweithiwr. Bydd y rhybudd yn nodi y gall methu â chyrraedd y safon perfformiad ofynnol arwain at ddiswyddo neu adleoli i swydd arall. Bydd rhybudd ysgrifenedig terfynol yn cael ei ddiystyru at ddibenion gallu ar ôl 12 mis neu unrhyw gyfnod arall a bennir ar yr adeg y'i rhoddir. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall rhybudd aros mewn grym am fwy na 12 mis neu byth gael ei ddileu.

Ymestyn y Cynllun Gwella: Os oes cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cyrraedd y safon ofynnol ond bod pryderon yn parhau, efallai y bydd Arweinydd Tîm yn penderfynu ei bod yn briodol ymestyn y Cynllun Gwella. Bydd hyd yr estyniad yn ystyried hyd y Cynllun Gwella blaenorol a lefel y tanberfformio ond ni all fod yn fwy na dyddiad dod i ben y Nodyn Gwella. Os na chyflawnir y safon perfformiad ofynnol yn ystod cyfnod ymestyn y Cynllun Gwella, bydd gofyn i'r gweithiwr fynychu cyfarfod Cam 2 arall.

Cam 3: Trydydd Cyfarfod Gallu

Ar ddiwedd cyfnod Cynllun Gwella, cynhelir cyfarfod i adolygu perfformiad y gweithiwr. Bydd yr Arweinydd Tîm yn ysgrifennu at y gweithiwr ymlaen llaw yn egluro pwrpas y cyfarfod hwnnw ac y gallai un o'r canlyniadau posibl olygu diswyddo neu adleoli i swydd arall.

Gall canlyniadau posibl y cyfarfod gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

Diswyddo gyda rhybudd (gan gynnwys sut y bydd prentisiaeth yn dod i ben lle bo hynny'n berthnasol)

Trosglwyddo i Gynllun arall – efallai y bydd yr Arweinydd Tîm yn ystyried bod hyn yn briodol yn lle diswyddo. Gall hyn gynnwys newid lefel neu fath y Cynllun. Gall hyn gynnwys dechrau Cynllun fel Prentis Blwyddyn 1 a delir ar y gyfradd gyfatebol.

Dim camau pellach – bydd hyn yn dilyn yr egwyddorion a nodir yng Ngham 2 uchod. Bydd y rheolwr yn hysbysu'r gweithiwr o'i benderfyniad yn ysgrifenedig.

Cam 4: Yr Hawl i Apelio

Mae gan weithwyr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad o dan holl gamau ffurfiol y weithdrefn hon ynglŷn â'r Polisi Gyrfaoedd Cynnar, Cyn-gyflogaeth a Phrentisiaethau Staff. Bydd pob apel yn cael ei gynnal yn unol â Pholisi Apeliadau'r BBC.

Mae'n rhaid i'r unigolyn gofrestru'r apel cyn pen 14 diwrnod calendr, a'i chyflwyno'n ysgrifenedig i'r Pennaeth Gyrfaoedd Cynnar, gan nodi'r sail dros apelio. Bydd yr unigolyn yn cael gwybod cyn pen 14 diwrnod calendr i'r cais am apel ddod i law am y dyddiad y cytunwyd arno ar gyfer y cyfarfod apel.

Bydd y cyfarfod apel yn cael ei gynnal gan reolwr uwch na'r Arweinydd Tîm a wnaeth y penderfyniad Gallu Cynlluniau gwreiddiol i ddiswyddo, oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn gwneud hynny'n anymarferol. Bydd y cyfarfod yn ystyried defnyddio gweithdrefn Gallu Cynlluniau. Mae gan weithiwr hawl i gael rhywun gyda nhw yn y cyfarfod apelio, naill ai gan gynrychiolydd Undeb Llafur achrededig neu weithiwr yn y BBC (ac eithrio rhywun sy'n gweithio fel cyfreithiwr ar y pryd).

Mae canlyniad yr apêl yn derfynol.

Terfynu'r Cynllun

Mae'r BBC yn cadw'r hawl i derfynu Cynllun y BBC ar unrhyw adeg a bydd yn dilyn y polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol fel cyflogwr ac i gefnogi llesiant yr unigolyn.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw'r BBC yn credu y byddai cwblhau Cynllun y BBC a therfynu eich cyflogaeth o ganlyniad i hynny yn golygu dileu swydd. Yn unol â hynny, nid oes hawl i unrhyw dâl dileu swydd na thaliad na budd-dal uwch statudol y BBC yn yr amgylchiadau hyn. Yn achos Cynlluniau cyfnod penodol, nid yw cwblhau'r cynllun yn gwarantu unrhyw leoliad pellach na gwaith gyda'r BBC.

Ar gyfer prentisiaid, mae'r cytundeb rhwng prentis a'r BBC yn gontract cyflogaeth ac nid yn gontract prentisiaeth. Ar gyfer pob pwrpas, bydd prentisiaid yn cael eu trin fel un o weithwyr y BBC ac mae'r polisiau sy'n berthnasol yn cael eu hegluro yn nogfennau contract pob unigolyn.

Argymhellir bod Arweinwyr Tîm yn siarad â'u Partneriaid Busnes AD is-adrannol ynghylch unrhyw ailstrwythuro perthnasol. Rhaid ymgynghori â'r Tîm Gyrfaoedd Cynnar a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Dylai Arweinwyr Tîm y BBC ystyried ffyrdd o osgoi diswyddiadau yn unol â'r Polisi Dileu Swyddi ac Ad-drefnu. Er nad yw darparu amserlen 6 mis rhwng hysbysu a therfynu ar sail dileu swydd yn berthnasol i unigolion sy'n ymgymryd â Chynlluniau, bydd yr egwyddorion cyffredinol sy'n ymwneud ag ymgynghori yn cael eu dilyn.

5. Cyfleoedd Di-dâl

5a. Cysgodi

Yn ôl disgrisiwn yr Arweinydd Tîm, gall unrhyw aelod o staff wahodd unigolyn i mewn am ddiwrnod o gysgodi heb gael ei gyfeirio ymhellach. Fel arfer, ni chaiff aelod o staff ond dod ag un unigolyn i mewn i gysgodi o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis, ac maent yn parhau i fod yn gyfrifol am y gwestai tra bydd ar safle'r BBC.

6. Rhaglenni Gweithredu Cadarnhaol

O bryd i'w gilydd, a dim ond pan fydd angen i ni fynd i'r afael â thangynrychiolaeth sydd wedi'i weld yn glir yn y gweithlu, efallai y byddwn yn ystyried cynnal rhaglen hyfforddi sy'n agored i un grŵp penodol sy'n cael ei dangynrychioli.

Mae'r maes hwn yn ddyrys a rhaid ystyried pa bryd y caniateir neu na chaniateir gweithredu'n gadarnhaol. Mae'r ystyriaethau canlynol yn berthnasol:

- Beth yw'r dangynrychiolaeth benodol rydym yn ceisio mynd i'r afael â hi? Bydd angen i ni allu dangos y dystiolaeth ddadansoddol i gefnogi hyn
- Mae angen i ni egluro pam mai'r cynllun gweithredu cadarnhaol arfaethedig yw'r ymateb mwyaf priodol a chymesur i'r dangynrychiolaeth hon (a bod dewisiadau eraill wedi cael eu hystyried)
- Mae angen i ni sicrhau mai pwrpas cynllun hyfforddi a datblygu gweithredu cadarnhaol yw darparu hyfforddiant ymarferol o safon uchel gyda'r nod o feithrin sgiliau trosglwyddadwy mewn amgylchedd darlledu.
- Gall unigolion ddod atom am ychydig ddyddiau a bydd unrhyw gynllun o dan 10 diwrnod yn aros o dan delerau profiad gwaith: di-dâl ond gyda lwfans treuliau
- Nid yw'r rheini sydd yma ar gynllun hyfforddi gweithredu cadarnhaol am gyfnod hirach yn cael eu hystyried yn weithwyr y BBC.
- Gall eithriad fod yn berthnasol i bobl ag anableddau. Siaradwch â Thîm Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu neu Bennaeth Gyrfaoedd Cynnar a Phrentisiaethau Staff ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyo
- Er mwyn eu galluogi i dderbyn yr hyfforddiant, byddant yn cael eu contractio ar Gytundeb Hyfforddiant y BBC ac yn derbyn lwfans hyfforddi; nid yw hwn yn gyflog. Fel arfer, mae hyn yn cyfateb (net) i gyfradd cyflog safonol Hyfforddeion neu Brentisiaid y BBC (ar ôl treth ac Yswiriant Gwladol, ac yn ystyried Pwysoliad Llundain)
- O fewn pedair wythnos i ymuno, bydd yr hyfforddeion yn derbyn cynllun hyfforddi a datblygu o safon uchel fel rhan o'u cyfnod cynefino gan eu Harweinydd Tîm. Mae hwn yn nodi amcanion dysgu'r rhaglen hyfforddi, yr hyfforddiant yn y gwaith/ystafell ddosbarth sy'n cefnogi hyn, a'r amcanion dysgu yn y gwaith sy'n atgyfnerthu'r hyfforddiant. Dylid cwblhau'r cynllun hyfforddi a datblygu hwn drwy ymgynghori â'r hyfforddai.
- Gall y tîm Gyrfaoedd Cynnar a Phrentisiaethau Staff ddarparu templed rhestr wirio cynefino a chynllun hyfforddi.
- Dylai gweithgarwch datblygu'r hyfforddeion yn y gweithle bob amser fod i hyrwyddo eu hyfforddiant a'u datblygiad, gan beidio byth â chyflawni gweithgaredd y byddai'n rhaid i ni fel arall gyflogi rhywun i'w wneud. Dylent, bob amser, fod yn cysgodi/gweithio ochr yn ochr ag aelodau eraill o'r tîm a dylent fod yn ychwanegol at y nifer bob amser. Ni ddylid dyrannu tasgau iddynt y mae'r BBC yn dibynnu arnynt.

- Dylai cynnydd tuag at gyflawni'r cynllun hyfforddi gael ei adolygu'n fisol gan yr Arweinydd Tîm / Cynllun – dylid rhoi adborth a chymorth priodol i gefnogi'r cynllun hwn.
- Ni ellir gwarantu swydd ar ddiwedd y rhaglen hyfforddi. Mae angen i bob hyfforddai gystadlu ar yr un telerau â'r ymgeiswyr eraill ar gyfer swyddi yn y BBC
- Mae angen asesu pob cynllun gweithredu cadarnhaol yn ôl ei amgylchiadau unigol; ni allwn ragdybio, am ein bod wedi rhedeg cynllun o'r blaen, y caniateir rhedeg cynlluniau eraill
- Os byddwn yn dewis rhedeg yr un cynllun eto, bydd angen i ni ailasesu'r amgylchiadau bob tro y byddwn yn ail-gomisiynu'r rhaglen.
- Mae'r rheini sydd ar gynlluniau cyfnod penodol yn gymwys i wneud cais am swyddi gwag mewnol y BBC am hyd at flwyddyn wedyn

7. Strwythur Cyflog

Y rheini sydd ar Gynlluniau'r BBC y tu allan i strwythur cyflogau a graddio'r BBC a'u band swydd yw TRN.

Mae strwythurau cyflog gwahanol ar gyfer carfannau y dechreuodd eu Cynlluniau cyn mis Medi 2021 (Tabl 1) a'r nifer sy'n cael eu derbyn ar gyfer Gyrfaedd Cynnar o fis Medi 2021 (Tabl 2). Dros amser ar ôl cwblhau'r Cynlluniau, dim ond un strwythur cyflog fydd yn cael ei ddefnyddio.

Mae cyflogau pob Cynllun yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd ac ni fyddwn byth yn talu llai na'r lefelau cyflog a nodir. Ni fydd y BBC byth yn talu llai na'r Cyflog Byw Cenedlaethol ac eithrio am Brentis yn ei flwyddyn gyntaf.

Mae 2 bwynt adolygu cyflog yn y BBC ac nid oes gwarant awtomatig o gynnydd mewn cyflog. Mae pwyntiau Adolygu Cyflogau y Cynlluniau fel a ganlyn:

3- Yn flynyddol ar Ddyddiad Dechrau Blynyddol y Cynllun
(dyddiad dechrau'r Cynllun bob blwyddyn)

4- Cyfradd Cyflog Byw Cenedlaethol (dechrau pob blwyddyn ariannol)

Ar gyfer carfannau'r Cynllun sy'n dechrau ym mis Medi 2021 a thu hwnt, mae'r strwythur cyflogau diweddaraf yn weithredol o 1 Hydref 2021 ymlaen.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Arbenigwr y Cynllun neu'r Arweinydd Tîm.

Tabl 1 – Strwythur Cyflog Cynlluniau ar gyfer carfannau sy'n dechrau cyn mis Medi 2021

Mae Tabl 1 yn rhoi manylion am Strwythur Cyflog y Cynlluniau, a ddaeth i rym cyn i'r Cynlluniau ddechrau cyn mis Medi 2021.

Math o Gynllun	Prentis Safonol L3-6	Prentis Safonol L7	Prentis Arbenigol L7	Hyfforddai Safonol	Hyfforddai Arbenigol
Blwyddyn 1	£14,400	£21,216	£28,000	£21,216	£22,714
Blwyddyn 2	Roedd yr Adolygiad Cyflogau yn ymwneud â'r dyddiad blynyddol lle mae cyflogau'n codi i'r gyfradd Cyflog Cenedlaethol gyfatebol neu'r cynnydd o £1,500 y flwyddyn, pa un bynnag yw'r uchaf			AMH	£25,669
Blwyddyn 2 - Ebrill	Ym mis Ebrill ym Mlwyddyn 2, mae cyflogau'n cynyddu i gyfradd newydd cyfatebol y Cyflog Byw Cenedlaethol			AMH	AMH
Blwyddyn 3	Roedd yr Adolygiad Cyflogau yn ymwneud â'r dyddiad blynyddol lle mae cyflogau'n codi i'r gyfradd Cyflog Cenedlaethol gyfatebol neu'r cynnydd o £1,500 y flwyddyn, pa un bynnag yw'r uchaf			AMH	AMH
Blwyddyn 4	Roedd yr Adolygiad Cyflogau yn ymwneud â'r dyddiad blynyddol lle mae cyflogau'n codi i'r gyfradd Cyflog Cenedlaethol gyfatebol neu'r cynnydd o £1,500 y flwyddyn, pa un bynnag yw'r uchaf			AMH	AMH

Tabl 2 – Strwythur Cyflog Cynlluniau ar gyfer carfannau sy'n dechrau ar ôl mis Medi 2021

Mae Tabl 2 yn rhoi manylion am Strwythur Cyflog y Cynlluniau, ar gyfer Cynlluniau a ddaeth i rym ar ôl mis Medi 2021.

Mae'r strwythur cyflog hwn yn weithredol o 1 Hydref 2021 ac yn berthnasol i garfannau Cynlluniau sy'n dechrau o fis Medi 2021 ymlaen a thu hwnt. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Arweinwyr Tîm.

Math o Gynllun	Prentis Safonol L3-6	Prentis Safonol L7	Prentis Arbenigol L7	Hyfforddai Safonol	Hyfforddai Arbenigol
Blwyddyn 1	£15,074	£22,442	£29,250	£22,442	£24,027
Blwyddyn 2	Adolygiad tâl yn gysylltiedig â'r dyddiad blynyddol lle mae cyflogau'n cynyddu i'r gyfradd Cyflog Byw Cenedlaethol cyfatebol	Adolygiad tâl yn gysylltiedig â'r dyddiad blynyddol			
Blwyddyn 2 - Ebrill	Ym mis Ebrill ym Mlwyddyn 2, mae cyflogau'n cael eu hadolygu i gyfradd newydd cyfatebol y Cyflog Byw Cenedlaethol				
Blwyddyn 3	Cynhaliwyd adolygiad tâl yn erbyn y Dyddiad blynyddol bob blwyddyn				
Blwyddyn 4	Cynhaliwyd adolygiad tâl yn erbyn Dyddiad blynyddol bob blwyddyn	AMH	AMH	AMH	AMH